OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 364 (Cy.31)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2005

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *22 Chwefror 2005* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Mawrth 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(a), (e) ac (f), 17(1) a (2), 26(1)(a), (2)(e) a (3), a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**), ac a freiniwyd ynddo bellach(**2**) ac ar ôl iddo roi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac ar ôl ymgynghori fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 o Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**) ac, yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2005, deuant i rym ar 1 Mawrth 2005 ac maent yn gymwys o ran Cymru yn unig.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

nid yw "awdurdod bwyd" ("*food authority*") yn cynnwys awdurdod iechyd porthladd;

ystyr "awdurdod iechyd porthladd" ("*port health authority*"), o ran unrhyw ardal iechyd porthladd a gyfansoddwyd drwy orchymyn o dan adran 2(3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Afiechydon) 1984, yw awdurdod iechyd porthladd ar gyfer yr ardal honno a gyfansoddwyd drwy orchymyn o dan adran 2(4) o'r Ddeddf honno;

ystyr "Cyfarwyddeb 85/591/EEC" ("*Directive 85/591/EEC*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 85/591/EEC sy'n ymwneud â chyflwyno dulliau'r Gymuned o samplu a dadansoddi ar gyfer monitro bwydydd y bwriedir i bobl eu bwyta(**4**);

(**1**) 1990 p.16.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1.
(**4**) OJ Rhif L372, 31.12.1985, t.50.

ystyr "Cyfarwyddeb 93/99/EEC" ("*Directive 93/99/EEC*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 93/99/EEC(**5**) am y math o fesurau ychwanegol sy'n ymwneud â rheoli bwydydd yn swyddogol;

ystyr "Cyfarwyddeb 98/53/EC" ("*Directive 98/53/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 98/53/EC sy'n gosod y dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol lefelau'r halogion penodol sydd mewn bwydydd(**6**) fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2002/27/EC(**7**) a Chyfarwyddeb y Comisiwn 2003/121/EC(**8**);

ystyr "Cyfarwyddeb 2001/22/EC" ("*Directive 2001/22/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2001/22/EC sy'n gosod y dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol lefelau'r plwm, cadmiwm, mercwri a'r 3-MPCD sydd mewn bwydydd(**9**) fel y'i cywirwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2001/873/EC(**10**);

ystyr "Cyfarwyddeb 2002/26/EC" ("*Directive 2002/26/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2002/26/EC sy'n gosod y dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol lefelau'r ocratocsin A sydd mewn bwydydd(**11**);

ystyr "Cyfarwyddeb 2002/69/EC" ("*Directive 2002/69/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2002/69/EC sy'n gosod y dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli deuocsinau yn swyddogol a phenderfynu ar lefelau PCBs fel deuocsinau sydd mewn bwydydd(**12**) fel y'i cywirwyd drwy gywiriad a gyhoeddwyd ar 20 Medi 2002(**13**) ac a ddiwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2004/44/EC(**14**);

ystyr "Cyfarwyddeb 2003/78/EC" ("*Directive 2003/78/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2003/78/EC sy'n gosod y dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol lefelau'r patwlin sydd mewn bwydydd(**15**);

ystyr "Cyfarwyddeb 2004/16/EC" ("*Directive 2004/16/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2004/16/EC sy'n gosod y dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol lefelau'r tun sydd mewn bwydydd tun(**16**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "Gwladwriaeth AEE" ("*EEA State*") yw Aelod-wladwriaeth, Norwy, Gwlad yr Iâ neu Liechtenstein;

ystyr "Rheoliad 178/2002" ("*Regulation 178/2002*") yw Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 o Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 o Senedd Ewrop a'r Cyngor;

ystyr "Rheoliad y Comisiwn" ("*the Commission Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 466/2001, sy'n gosod lefelau uchaf yr halogion penodol mewn bwydydd(**17**) fel y'i cywirwyd drwy gywiriad a gyhoeddwyd ar 30 Tachwedd 2001(**18**), ac fel y'i diwygiwyd gan

(**5**) OJ Rhif L290, 24.11.1993, t.14.
(**6**) OJ Rhif L201, 17.7.1998, t.93, fel y'i mabwysiadwyd drwy Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 93/1999 (OJ Rhif L296 23.11.2000, t.58)
(**7**) OJ Rhif L75, 16.3.2002, t.44, fel y'i mabwysiadwyd drwy Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 161/2002.
(**8**) OJ Rhif L332, 19.12.2003, t.38.
(**9**) OJ Rhif L77, 16.3.2001, t.14.
(**10**) OJ Rhif L325, 8.12.2001, t.34.
(**11**) OJ Rhif L75, 16.3.2002, t.38.
(**12**) OJ Rhif L209, 6.8.2002, t.5.
(**13**) OJ Rhif L252, 20.9.2002, t.40.
(**14**) OJ Rhif L113, 20.4.2004, t.17.
(**15**) OJ Rhif L203, 12.8.2003, t.40.
(**16**) OJ Rhif L42, 13.2.2004, t.16.
(**17**) OJ Rhif L77, 16.3.2001, t.1, fel y'i mabwysiadwyd drwy Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 81/2002 (OJ Rhif L266, 3.10.2002, t.30 AEE atodiad Rhif 49, 3.10.2002).
(**18**) OJ Rhif L313, 30.11.2001, t.60, fel y'i mabwysiadwyd drwy Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 81/2002.

Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 2375/2001(**19**), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 221/2002(**20**), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 257/2002(**21**), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 472/2002(**22**) fel y'i cywirwyd drwy gywiriad a gyhoeddwyd ar 23 Mawrth 2002(**23**), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 563/2002(**24**) fel y'i cywirwyd drwy gywiriad a gyhoeddwyd ar 14 Mehefin 2002(**25**), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1425/2003(**26**), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2174/2003(**27**), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 242/2004(**28**)), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 455/2004(**29**)) a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 684/2004(**30**)); ac

ystyr "sbigoglys awdurdodedig" ("*authorised spinach*") yw sbigoglys o'r math a nodir ym mhwynt 1.1 o adran 1 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn, ac a dyfir yn y Deyrnas Unedig yn unol â'r amod i Erthygl 3.1 o'r Rheoliad hwnnw a chyda'r bwriad o gael ei fwyta gan bobl yno.

(2) Mae i ymadroddion eraill a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yn Rheoliad y Comisiwn yr un ystyr ag a roddir i'r ymadroddion Saesneg cyfatebol yn Rheoliad y Comisiwn.

## Tramgwyddau a chosbau

**3.** Yn ddarostyngedig i reoliadau 6, 10 ac 11, bydd person yn euog o dramgwydd ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol os yw—

(a) yn gosod unrhyw fwyd ar y farchnad (heblaw am sbigoglys awdurdodedig), a gwmpesir gan Erthygl 1.1, 2.1, 2.2 neu 4.1 o Reoliad y Comisiwn, fel y'u darllenir ar y cyd ag Erthyglau 1.2 a 4.3 o'r Rheoliad hwnnw, ond nad yw'n bodloni gofynion yr Erthyglau hynny, neu

(b) yn mynd yn groes i Erthygl 2.3, 4.2 neu 4a o Reoliad y Comisiwn; neu

(c) yn fwriadol yn mynd yn groes i ofynion hysbysiad a roddwyd o dan adran 9(2)(a) o'r Ddeddf fel y'i cymhwysir at ddibenion y Rheoliadau hyn gan reoliad 7(2), neu yn methu â chydymffurfio â hwy.

## Gorfodi

**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), dyletswydd pob awdurdod iechyd porthladd fydd gweithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn o fewn ei ardal.

(2) Mewn perthynas ag unrhyw le sydd heb ei leoli yn rhanbarth awdurdod iechyd porthladd, caiff y Rheoliadau hyn eu gweithredu a'u gorfodi gan yr awdurdod bwyd sy'n gweithredu dros yr ardal lle mae'r lle hwnnw.

## Addasu adran 29 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (caffael samplau) a dadansoddi'r samplau

**5.**—(1) Wrth ei chymhwyso i samplu unrhyw fwyd a bennir yn adrannau 1 i 6 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn, addasir adran 29 o'r Ddeddf i'w gwneud yn ofynnol i weithredu'r pŵer i gymryd

(**19**) OJ Rhif L321, 6.12.2001, t.1, fel y'i mabwysiadwyd drwy Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 81/2002.
(**20**) OJ Rhif L37, 7.2.2002, t.4, fel y'i mabwysiadwyd drwy Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 139/2002 (OJ Rhif 19, 23.1.2003, t.3 ac atodiad AEE Rhif 5, 23.1.2003).
(**21**) OJ Rhif L41, 13.2.2002, t.12, fel y'i mabwysiadwyd drwy Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 100/2002 (OJ Rhif L298, 31.10.2002, t.13 ac atodiad AEE Rhif 54, 31.10.2002, t.11).
(**22**) OJ Rhif L75, 16.3.2002, t.18, fel y'i mabwysiadwyd drwy Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 161/2002 (OJ Rhif L38, 13.2.2003, t.16 ac atodiad AEE Rhif 9, 13.2.2003, t.13).
(**23**) OJ Rhif L80, 23.3.2002, t.42.
(**24**) OJ Rhif L86, 3.4.2002, t.5, fel y'i mabwysiadwyd drwy Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 161/2002.
(**25**) OJ Rhif L155, 14.6.2002, t.63, fel y'i mabwysiadwyd drwy Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif 161/2002.
(**26**) OJ Rhif L203, 12.8.2003, t.1.
(**27**) OJ Rhif L326, 13.12.2003, t.12.
(**28**) OJ Rhif L42, 13.2.2004, t.3
(**29**) OJ Rhif L74, 12.3.2004, t.11.
(**30**) OJ Rhif L106, 15.4.2004, t. 6.

samplau o dan is-adran (b) a (d) o'r adran honno yn unol â'r dulliau samplu a ddisgrifir neu y cyfeirir atynt—

(a) (yn ddarostyngedig i'r gofyniad a bennir yng ngholofn 3 o adran 1 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn(**31**)), yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb y Comisiwn 2002/63/EC sy'n gosod dulliau samplu'r Gymuned ar gyfer rheoli'n swyddogol weddillion plaleiddiaid mewn cynhyrchion sy'n dod o blanhigion ac anifeiliaid ac arnynt, ac yn diddymu Cyfarwyddeb 79/700/EC(**32**), pan fo'r bwyd dan sylw yn dilyn disgrifiad a bennir yn adran 1 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn, y mae'r Gyfarwyddeb honno yn gymwys i'w samplu, yn unol ag Erthygl 1.3 o'r Rheoliad hwnnw;

(b) yn Atodiad I i Gyfarwyddeb 98/53/EC, pan fo'r bwyd dan sylw yn dilyn disgrifiad a bennir yn adran 2 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn, y mae'r Gyfarwyddeb honno yn gymwys i'w samplu, yn unol ag Erthygl 1.3 o'r Rheoliad hwnnw;

(c) yn Atodiad I i Gyfarwyddeb 2001/22/EC, pan fo'r bwyd dan sylw yn dilyn disgrifiad a bennir yn adran 3 neu 4 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn, y mae'r Gyfarwyddeb honno yn gymwys i'w samplu, yn unol ag Erthygl 1.3 o'r Rheoliad hwnnw;

(ch) yn Atodiad I i Gyfarwyddeb 2002/26/EC, pan fo'r bwyd dan sylw yn dilyn disgrifiad a bennir yn adran 2 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn, y mae'r Gyfarwyddeb honno yn gymwys i'w samplu, yn unol ag Erthygl 1.3 o'r Rheoliad hwnnw;

(d) yn Atodiad I i Gyfarwyddeb 2002/69/EC, pan fo'r bwyd dan sylw yn dilyn disgrifiad a bennir yn adran 5 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn, y mae'r Gyfarwyddeb honno yn gymwys i'w samplu, yn unol ag Erthygl 1.3 o'r Rheoliad hwnnw;

(dd) yn Atodiad I i Gyfarwyddeb 2003/78/EC, pan fo'r bwyd dan sylw yn dilyn disgrifiad a bennir yn adran 2 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn, y mae'r Gyfarwyddeb honno yn gymwys i'w samplu, yn unol ag Erthygl 1.3 o'r Rheoliad hwnnw; ac

(e) yn Atodiad I i Gyfarwyddeb 2004/16/EC, pan fo'r bwyd dan sylw yn dilyn disgrifiad a bennir yn adran 6 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn, y mae'r Gyfarwyddeb honno yn gymwys i'w samplu, yn unol ag Erthygl 1.3 o'r Rheoliad hwnnw.

(2) Pan fo swyddog awdurdodedig, yn unol ag adran 29(b) neu (d) o'r Ddeddf fel y'i haddaswyd gan baragraff (1), wedi cymryd sampl o fwyd sy'n dilyn y disgrifiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (b) o'r paragraff hwnnw, a'i fod yn cyflwyno'r sampl i gael ei dadansoddi yn unol ag adran 30(1)(a) o'r Ddeddf, rhaid i'r person sy'n dadansoddi'r sampl sicrhau—

(a) y caiff y sampl ei pharatoi yn unol â—

(i) paragraffau 1.1, 2 a 3 o Atodiad II i Gyfarwyddeb 98/53/EC, a

(ii) yn achos cnau cyfan, yn unol â pharagraff 1.2 o'r Atodiad hwnnw;

(b) bod unrhyw ddadansoddiad o'r sampl yn cael ei wneud yn unol â dulliau dadansoddi sydd—

(i) yn cydymffurfio â pharagraffau 1 a 2 o'r Atodiad i Gyfarwyddeb 85/591/EEC i'r graddau y mae hynny'n ymarferol, a

(ii) yn bodloni'r meini prawf a bennir ym mharagraff 4.3 o Atodiad II i Gyfarwyddeb 98/53/EC fel y'i darllenir ar y cyd â nodiadau'r paragraff hwnnw;

(c) bod unrhyw ddadansoddiad o'r sampl yn cael ei wneud gan labordy sy'n cydymffurfio â Chyfarwyddeb 93/99/EEC; ac

(ch) bod yr adroddiad o ganlyniadau dadansoddi'r sampl honno—

(**31**) Y gofyniad yw mai 10 yw isafswm nifer yr unedau y mae eu hangen ar gyfer sampl labordy mewn amgylchiadau o'r fath.
(**32**) OJ Rhif L187, 16.7.2002, t.30.

(i) yn defnyddio'r diffiniadau a geir ym mharagraff 4.1 o Atodiad II i Gyfarwyddeb 98/53/EC, a

(ii) yn unol â pharagraff 4.4 o'r Atodiad hwnnw.

(3) Pan fo swyddog awdurdodedig, yn unol ag adran 29(b) neu (d) o'r Ddeddf fel y'i haddaswyd gan baragraff (1), wedi cymryd sampl o fwyd sy'n dilyn y disgrifiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (c) o'r paragraff hwnnw, a'i fod yn cyflwyno'r sampl i gael ei dadansoddi yn unol ag adran 30(1)(a) o'r Ddeddf, rhaid i'r person sy'n dadansoddi'r sampl sicrhau—

(a) y caiff y sampl ei pharatoi yn unol â pharagraffau 1 a 2 o Atodiad II i Gyfarwyddeb 2001/22/EC ac, yn achos paragraff 2, fel y'i darllenir ar y cyd â'r nodyn i'r paragraff hwnnw;

(b) bod unrhyw ddadansoddiad o'r sampl yn cael ei wneud yn unol â dulliau dadansoddi sydd—

(i) i'r graddau y mae'n ymarferol, yn cydymffurfio â pharagraffau 1 a 2 o'r Atodiad i Gyfarwyddeb 85/591/EEC,

(ii) yn achos dadansoddi ar gyfer plwm (ac eithrio mewn gwin), mercwri neu gadmiwm, yn bodloni'r meini prawf a bennir ym mharagraff 3.3.1 o Atodiad II i Gyfarwyddeb 2001/22/EC,

(iii) yn achos dadansoddi ar gyfer plwm mewn gwin, yn cydymffurfio ag ail is-baragraff paragraff 3.2 o'r Atodiad hwnnw, a

(iv) yn achos dadansoddi ar gyfer 3-MCPS, yn bodloni'r meini prawf a bennir ym mharagraff 3.3.2 o'r Atodiad hwnnw fel y'u darllenir ar y cyd â'r nodyn i'r paragraff hwnnw;

(c) bod unrhyw ddadansoddiad o'r sampl yn cael ei wneud gan labordy sy'n cydymffurfio â Chyfarwyddeb 93/99/EEC;

(ch) bod unrhyw ddadansoddiad o'r sampl yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n cydymffurfio ag is-baragraff cyntaf ac ail is-baragraff paragraff 3.4 o Atodiad II i Gyfarwyddeb 2001/22/EC ac, yn achos yr ail is-baragraff, fel y'i darllenir ar y cyd â'r nodyn i'r is-baragraff hwnnw; a

(d) bod yr adroddiad o ganlyniadau dadansoddi'r sampl honno—

(i) yn defnyddio'r diffiniadau a geir ym mharagraff 3.1 o Atodiad II i Gyfarwyddeb 2001/22/EC, fel y'i darllenir ar y cyd â'r nodyn i'r paragraff hwnnw, a

(ii) yn unol â thrydydd is-baragraff paragraff 3.4 a pharagraff 3.6 o'r Atodiad hwnnw.

(4) Pan fo swyddog awdurdodedig, yn unol ag adran 29(b) neu (d) o'r Ddeddf fel y'i haddaswyd gan baragraff (1), wedi cymryd sampl o fwyd sy'n dilyn y disgrifiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (ch) o'r paragraff hwnnw, a'i fod yn cyflwyno'r sampl i gael ei dadansoddi yn unol ag adran 30(1)(a) o'r Ddeddf, rhaid i'r person sy'n dadansoddi'r sampl sicrhau—

(a) y caiff y sampl ei pharatoi yn unol â pharagraffau 1 i 3 o Atodiad II i Gyfarwyddeb 2002/26/EC;

(b) bod unrhyw ddadansoddiad o'r sampl yn cael ei wneud yn unol â dulliau dadansoddi—

(i) sydd yn cydymffurfio â pharagraffau 1 a 2 o'r Atodiad i Gyfarwyddeb y Cyngor 85/591/EEC, a

(ii) sydd yn bodloni'r meini prawf a bennir ym mharagraff 4.3 o Atodiad II i Gyfarwyddeb 2002/26/EC fel y'i darllenir ynghyd â'r nodiadau i'r paragraff hwnnw;

(c) bod unrhyw ddadansoddiad o'r sampl yn cael ei wneud gan labordy sy'n cydymffurfio â Chyfarwyddeb 93/99/EEC; ac

(ch) bod yr adroddiad o ganlyniadau dadansoddi'r sampl honno—